

15 mlynedd o
Gwarchod y Parc
Conserving the Park
2003-2018

**Cynllun arbenigol sy'n hybu dulliau
traddodiadol o reoli tir yn Sir Benfro**



**Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro**
**Pembrokeshire Coast
National Park**

Cynnwys

Y dyddiau cynnar	3
Y prosiect heddiw	3
Sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â chynlluniau eraill?	4
Pwy yw'n cwsmeriaid?	5
Beth yw ein blaenoriaethau a'n targedau?	6
Ble mae safleoedd ein prosiect?	8
Sut mae'n gweithio?	9
Astudiaethau achos	12
Blychau tylluanod gwyn	24
Problemau a wynebwyd	25
Manteision ehangach	26
Y dyfodol	26
Dyfyniadau gan bartneriaid a rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun	27



Cwrs hyfforddiant cacwn i drigolion
pentref Brynberian

©Tez Marsden Photos

Y dyddiau cynnar

Yn 1999 derbyniodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gyllid gan Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer prosiect tair blynedd o'r enw **'Gwarchod Y Godiroedd'**. Sefydlwyd y prosiect i fynd i'r afael â'r lleihad mewn arferion ffermio traddodiadol ar yr arfordir (pori'n bennaf), a'r lleihad o ganlyniad i hynny mewn bywyd gwyllt o bwysigrwydd rhyngwladol ar yr arfordir. Roedd hyn yn cynnwys rhydd arfordirol a glaswelltir morol sy'n doreithiog o flodau, a llawer o rywogaethau sy'n dibynnu ar y cynefinoedd hyn, yn enwedig y frân goesgoch brin y mae Sir Benfro'n un o'i chadarnleoedd.

Cafodd y prosiect ei groesawu a'i ddatblygu'n raddol er mwyn diwallu anghenion perchnogion tir a bywyd gwyllt ar yr arfordir.

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi cyngor technegol ar fynd i'r afael â phroblemau rheoli'r arfordir, ac mae ar gael o hyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro



Y prosiect heddiw

Gwelsom y gellid cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd gennym wrth geisio rheoli'r arfordir i gynefinoedd eraill, ac i rannau eraill o'r Parc Cenedlaethol. Felly, pan ddaeth y cynllun gwreiddiol i ben yn 2002, cafodd ei roi ar waith fesul cam mewn ardaloedd eraill – y tro hwn dan y teitl **'Gwarchod y Parc'**. Mae tanbori yn broblem fawr i lawer o gynefinoedd heddiw, ond yn ychwanegol at hyn, ac ym mhen arall y sbectrwm, mae angen adfer tir sydd wedi cael ei reoli'n ddwys. Mae'r prosiect hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r ddau fater hyn – a materion eraill sydd yn y canol.

Erbyn hyn mae'r cynllun yn derbyn arian craidd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, gan gydnabod pwysigrwydd y cynllun er mwyn cyflawni prif bwrpas yr Awdurdod, sef gwarchod a gwella ei harddwch naturiol, ei fywyd gwyllt a'i dreftadaeth ddiwylliannol.

Mae arian craidd yn golygu nad oes angen i'r rhai sy'n cymryd rhan boeni y bydd y cynllun yn dod i ben ar ôl ychydig o flynyddoedd, yn wahanol i lawer o brosiectau y dyddiau hyn. Mae hyn yn rhoi hyder i berchnogion tir ymuno â'r cynllun, yn enwedig os ydynt yn mynd i newid y ffordd y maent yn rheoli eu tir yn sylweddol neu wneud buddsoddiad ariannol sylweddol.

Ysgrifennwyd y llyfryn hwn i grynhoi'r hyn rydym wedi'i ddysgu yn ystod 15 mlynedd diwethaf y cynllun ac i ddathlu rhai o'i lwyddiannau.

Skrinkle Haven



Sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â chynlluniau eraill?

Mae'r prosiect yn cynnig cymorth i unrhyw un sy'n dymuno cynyddu gwerth y bywyd gwyllt sydd ar ei dir. Gall helpu'r rhai nad yw'r cynllun amaeth-amgylcheddol cenedlaethol yn addas iddynt neu nad ydynt yn gymwys iddo (er enghraifft, nid ydym yn nodi isafswm maint daliad). Gall hefyd helpu'r rhai hynny sydd mewn cynllun arall yn barod ond sydd angen cymorth ychwanegol i'w gyflawni, er enghraifft ffensiō neu gael gafael ar y math iawn o anifeiliaid pori.

Mae ein gwaith yn ceisio llenwi bwlch; rydym bob amser wedi ei ddisgrifio fel "y cynllun sy'n cyrraedd y rhannau nad yw cynlluniau eraill yn eu cyrraedd"! Mae'n gynllun arbenigol, lleol sy'n ceisio atgyfnerthu ac ategu cynlluniau sy'n bodoli'n barod, yn hytrach na chystadlu yn eu herbyn.

CYNLLUNIAU AGRI-AMGYLCHEDD CENEDLAETHOL YN SIR BENFRO



Mae ein cynllun wedi apelio at berchnogion tir sydd wedi ymwneud ag un o'r cynlluniau uchod, ond sydd heb fynd ymlaen i'r cynllun nesaf am resymau amrywiol. Mae hyn wedi golygu ein bod wedi gallu adeiladu ar y gwaith da sydd wedi'i wneud yn barod a pharhau â'r gwaith da hwnnw.

Gallai hyn fod yn bwysig iawn yn y cyfnod sydd ohoni, â'r holl ansicrwydd ynglŷn â chymorth amaeth-amgylcheddol ar ôl Brexit. Gallai cynlluniau lleol fod o gymorth drwy helpu i bontio'r gagendor cyn i drefniadau cymorth cenedlaethol newydd gael eu sefydlu a'u rhoi ar waith.

Gan fod ein gwaith yn cael effaith gadarnhaol ar y lleihad mewn pryfed peillio, mae'n cynorthwyo sefydliadau a phrosiectau eraill sy'n canolbwyntio ar y mater hwn. Mae'r map isod yn dangos mannau yn y Deyrnas Unedig sydd wedi cael eu blaenoriaethu gan yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn oherwydd bod prinder cacwn yno. Yr ardaloedd coch yw'r ardaloedd â'r flaenoriaeth fwyaf ac mae arfordir Sir Benfro a'r gefnwlod yn perthyn i'r categori hwn.



Ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer gwarchod cacwn.



Mae'r map uchod yn dangos y safleoedd prosiect hynny (wedi'u nodi â diemwntiau gwyrdd) sy'n dod o fewn y coridorau bywyd gwyllt neu'r 'B-Lines' a fapiwyd gan Buglife.

Pwy yw ein cwsmeriaid?

Yn ogystal â pharhau i weithio gyda phawb sy'n rhan o'r cynllun cynharach, sef Gwarchod y Godiroedd, mae nifer o bobl wedi ymuno â'r cynllun o'r newydd bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys ffermwyr, tyddynwyr, ymddiriedolaeth natur, hostelau ieuentid, ysgolion, mynwentydd, grwpiau cymunedol a hyd yn oed cwmni fferi.

Mae rhai o'r rhain mewn ardaloedd dynodedig, er enghraifft Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), ond nid pob un, felly mae'n anodd i'r perchnogion tir hyn gael mynediad at gyngor a chymorth.

Mae gennym dros 100 o safleoedd gweithredol ar hyn o bryd, ond rydym wedi cynorthwyo tua 200 ers i'r cynllun gychwyn. Rydym wedi gadael i'r cynllun dyfu'n raddol dros y blynyddoedd, er mwyn i ni allu dygymod â'r galw, o ran amser staff a'r adnoddau sydd ar gael. Dyma un rheswm pam nad ydym wedi gwneud llawer iawn o waith i hyrwyddo'r cynllun. Yn gyffredinol, mae perchnogion tir wedi bod yn dod atom ni drwy'r canlynol:

- argymhelliad gan berchnogion tir cyfagos
- staff eraill Awdurdod y Parc, yn enwedig parcmyn a wardeniaid, sydd allan yn y maes yn gweithio gyda pherchnogion tir
- sefydliadau cadwraeth eraill (er enghraifft Cyfoeth Naturiol Cymru) yn cyfeirio pobl
- targedu ardaloedd pwysig o dir yn uniongyrchol, neu dir sy'n ffinio ar safleoedd sy'n bodoli'n barod
- sioeau a digwyddiadau lleol

Mae cyfanswm y tir sydd yn y cynllun yn amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall gan fod safleoedd yn mynd a dod, ond ar hyn o bryd mae tua 1,200 hectar o dir ynddo.

Does dim amheuaeth y byddai rhagor o gyllid ac amser staff yn arwain at enillion mawr, o ran cyfanswm y tir sy'n cael ei reoli ar gyfer bywyd gwyllt. Gwelsom nad oes prinder cwsmeriaid sy'n chwilio am y math hwn o gymorth. I lawer o bobl, does unman arall i droi am gymorth ymarferol i reoli eu tir fel hyn.

Taflen y cynllun



Rydym wedi newid y dulliau rheoli ar lawer o'n safleoedd ein hunain i'w gwneud yn fwy addas i fywyd gwyllt, er enghraifft yng Nghastell Caeriw, Skrinkle Haven, Pen-caer a Freshwater East



Castell Caeriw

Beth yw ein blaenoriaethau a'n targedau?

Mae rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth yn Sir Benfro wedi'i llunio dan y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Mae pob safle rydym yn ei gynorthwyo'n cynnwys o leiaf un, a rhagor fel arfer, o'r cynefinoedd/rhywogaethau blaenoriaeth hyn.



Rhos llawr gwlad



Glaswelltir corsiog



Godiroedd




Mynwentydd



Dolydd iseldir



Planhigion fel y gorfanhadlen flewog, tegeirian llydanwyrdd, pelenllys gronnynog, fioled welw, y ganrhi felen eiddil, crafanc-y-frân dridarn, canrhi Trefdraeth a ffyngau glaswelltir



Glöynnod byw: britheg y gors, brithribin brown

Pryfed peillio fel cacwn a chwilod



Ymlusgiaid ac amffibiaid: gwiber, madfall, neidr ddefaid, llyffant dafadennog



Adar: brân goesgoch, ehedydd, tylluan wen ac adar prysgdir megis clochdar y cerrig

Er hyn, mae'r cynllun yn ceisio bod o fudd i amrediad llawer ehangach o fywyd gwyllt. Mae'n ymwneud â sefydlu prosesau penodol y gwyddom eu bod yn creu'r amgylchiadau iawn ar gyfer amrywiaeth eang o fywyd gwyllt, sy'n cael eu rhoi ar waith yn berffaith drwy arferion ffermio traddodiadol. Yn y rhan fwyaf o'r achosion, mae hyn yn golygu strwythur llystyfiant amrywiol dros y safle – mosaig o gynefinoedd – a fydd o fudd i'r nifer mwyaf o rywogaethau. Mae llawer o'r rhywogaethau hyn yn rhai nad ydym hyd yn oed yn gwbl ymwybodol ohonynt, yn enwedig yng nghyswllt yr infertebratau bach. Felly, er enghraifft, mae arnom eisiau gweld clytiau o brysg ar gyfer adar, ardaloedd o borfa fer ar gyfer ymlusgiaid sy'n hoffi torheulo, a llystyfiant hir ar gyfer mamaliaid bach ac infertebratau ac yn y blaen. Mae mosaig o gynefinoedd hefyd yn creu digon o 'gynefinoedd ymyl', hynny yw, lle mae un math o gynefin yn newid yn raddol i un arall. Mae cynefinoedd o'r fath yn werthfawr iawn i fywyd gwyllt.



Dyffryn yng ngogledd Sir Benfro lle mae pori wedi creu clytwaith perffaith o gynefinoedd sy'n llawn bywyd gwyllt

Ble mae safleoedd ein prosiect?

Mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol, ond gallwn hefyd helpu'r rhai hynny sydd y tu allan i'r Parc os yw'r tir yn cyfrannu tuag at fioamrywiaeth y Parc. Nid yw natur yn cymryd sylw o ffiniau. Gall helpu safle sydd ychydig y tu allan i'r Parc ond ar goridau bywyd gwyllt sy'n ymestyn iddo, fod yn fwy buddiol na helpu safle sydd o fewn y Parc ond sydd wedi'i amgylchynu gan dir wedi'i wella ac nad yw wedi'i gysylltu'n ecolegol ag unman arall.

Rydym yn targedu safleoedd sydd ar goridau bywyd gwyllt, neu sy'n gallu helpu i greu coridorau bywyd gwyllt. Mae angen i ni ddarparu tirwedd sydd â gwell cysylltiadau ecolegol er mwyn rhoi sylw i'r dirywiad eang yn ein bywyd gwyllt, ac er mwyn rhoi sylw i'r problemau y mae newid hinsawdd yn eu hachosi i fywyd gwyllt.

Sut mae'n gweithio?

Dechreuasom â nifer o wahanol bethau y gallem eu cynnig i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun, ond wrth i'n profiad o'r hyn y mae ar bobl ei angen gynyddu dros y blynyddoedd, mae'r amrywiaeth o gymorth sydd ar gael hefyd wedi cynyddu. Mae'r cynllun yn hyblyg iawn, felly os gwelwn bod angen rhywbeth newydd, gallwn wneud hynny'n rhan o'r prosiect. Y canlyniad yw 'pecyn cymorth' sy'n ceisio mynd i'r afael â'r holl rwystrau y gallai rhywun eu hwynebu wrth geisio rheoli ei dir mewn ffordd sy'n ystyriol o fywyd gwyllt.

Dull Gweithredu sy'n seiliedig ar Becyn Cymorth

Rydym yn ymweld â phob safle newydd ac yn asesu ei werth presennol a'i werth posibl i fywyd gwyllt. Rydym yn nodi'r 'cymorth' sydd ei angen er mwyn cynyddu gwerth y safle i fywyd gwyllt ac yn trafod hynny gyda pherchennog y tir. Mae angen gwahanol fath o gymorth ar gyfer gwahanol safleoedd – bydd ar rai safleoedd angen pob math o gymorth, tra bydd rhai mathau o gymorth yn ddigon i eraill. Mae hyn yn golygu bod safle'n derbyn cymorth sydd wedi'i deilwra'n benodol ar ei gyfer ... a bod y cymorth, o ganlyniad, yn fwy tebygol o lwyddo.

Mae'r prosiect yn gweithredu ar sail yr egwyddorion a ganlyn

Symrlrwydd – cyn lleied ag sy'n bosibl o waith papur i ffermwyr

Gweithredu'n fuan – llunio cytundebau'n gyflym, taliadau buan, amseroedd ymateb cyflym i alwadau am gymorth

Hyblygrwydd – osgoi amodau anhyblyg, cyffredin (er enghraifft cyfraddau stocio) ac anelu at gynigion ar gyfer safleoedd penodol y gellir eu haddasu yn ôl y galw

Cleisio rhedyn, uwchben Traeth Marloes



Pecyn Cymorth

Cymorth	Rhoi sylw i'r broblem
Cyngor	Ychydig iawn o leoedd sy'n rhoi cyngor di-dâl i berchnogion tir i'w helpu i reoli tir sydd heb ei ddynodi. Ar ôl i brosiect gael ei sefydlu a'i roi ar waith, mae cyngor ar gael bob amser gan staff y prosiect i gadw pethau ar y llwybr cywir.
Cymorth ymarferol	Mae rhai sgiliau traddodiadol, er enghraifft llosgi eithin a grug dan reolaeth yn y gaeaf, wedi'u colli i raddau helaeth, felly mae staff y Parc Cenedlaethol yn cynnig y gwasanaeth hwn drwy'r cynllun. Weithiau mae'n anodd dod o hyd i gontractwyr i wneud pethau fel rowlio rhedyn neu dorri prysg, felly gall ein staff ni wneud y gwaith hwn, neu drefnu i gael contractwyr arbenigol i'w wneud. Mae rhai tasgau'n rhy fach i gontractwyr, er enghraifft trwsio ffensys, ond gall ein wardeniaid ni helpu.
Mynediad at wirfoddolwyr	Nid oes digon o weithwyr ar ffermydd i wneud tasgau mawr, neu dasgau sy'n cymryd llawer o amser, er enghraifft plannu gwrychoedd a thorri prysg.
Grantiau	I fynd i'r afael â'r gwaith costus o sicrhau bod safleoedd yn addas i gadw stoc i mewn. Ar gael ar gyfer ffensio, clwydi, cyflenwadau dŵr a seilwaith arall sy'n ofynnol.
Cytundebau rheoli (taliadau ardal)	Fel cymhelliant ac fel ffordd o wneud i system reoli newydd dalu ei ffordd.
Cyrchu anifeiliaid pori	Nid oes gan lawer o'r daliadau stoc addas ar gyfer pori cadwraethol.
Prosiectau arbennig	I fynd i'r afael â phrosiectau costus ar gyfer cynefinoedd/ rhywogaethau penodol, er enghraifft creu llyn/pwll bas, blychau tylluanod gwyn, creu/adfer perthi.
Mynediad at arbenigwyr	Diffyg gwybodaeth am blanhigion ac anifeiliaid arbennig. Mae gennym gysylltiadau da ag arbenigwyr bywyd gwyllt lleol a all helpu i ganfod a nodi rhywogaethau arbennig, yn ogystal â'u rhoi mewn cyd-destun daearyddol a rhoi cyngor ynglŷn â sut i'w rheoli
Gafael llaw	Mae llawer o berchnogion tir yn gwerthfawrogi cysylltiad parhaus â'r staff er mwyn asesu sut mae pethau'n mynd, cael help i fynd i'r afael â phroblemau sy'n codi a chymorth ychwanegol ar y ffordd os oes angen.


Un o'r elfennau pwysicaf yn y pecyn cymorth yw Cyrchu anifeiliaid pori

Yn ddelfrydol, dylai cynlluniau pori cadwraethol fod yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth gynhyrchol lle bynnag y bo modd, ond nid yw hynny'n bosibl bob amser, er enghraifft, nid yw gwartheg llaeth modern a gwartheg biff cyfandirol yn addas ar gyfer tir pori garw, ac ni fydd pori â defaid yn unig yn cyflawni amcanion cadwraethol bob amser. Mae'n mynd yn anos o hyd i ddulliau rheoli cynefinoedd lled-naturiol ddibynnu ar arferion amaethyddol arferol.

Roedd tua hanner ein safleoedd heb anifeiliaid pori addas ar y dechrau. Sefydlwyd Rhwydwaith Pori Sir Benfro i fynd i'r afael â'r angen hwn – mae'r system yn cyfateb safleoedd/stoc sydd eu hangen a safleoedd/stoc sydd ar gael lle bynnag y bo modd.

Gall y rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun elwa drwy gael anifeiliaid pori ar eu tir heb orfod bod yn berchen arnynt. Yn ychwanegol at hyn, mae llawer o safleoedd yn rhy fach i gynnal stoc drwy'r flwyddyn. Rydym yn ceisio sicrhau'r nifer priodol o anifeiliaid ar gyfer y cyfnod sy'n ofynnol, a sicrhau bod yr anifeiliaid yn cael eu symud wedyn i safleoedd eraill. Golyga hyn fod grwpiau o anifeiliaid yn gwasanaethu safleoedd sydd angen y gwasanaeth hwn drwy gael eu symud o'r naill safle i'r llall yn y Parc.

Mae nifer o wahanol senarios wedi dod i'r amlwg:



Richard Lewis, ffermwr sy'n defnyddio merlod mynydd Cymreig o'r Rhwydwaith Pori i bori ei dir ar yr arfordir sy'n rhan o gytundeb Glastir. Mae Richard hefyd yn cadw llygad ar stoc ar dir cyfagos sy'n eiddo i'r Parc Cenedlaethol, ac yn cael tâl bychan bob mis am ei waith.



Mae wardeniaid y Parc Cenedlaethol yn helpu i hel a symud anifeiliaid pori o'r naill safle i'r llall.

Gan amlaf mae'r cynllun yn defnyddio merlod mynydd Cymreig. Er mai gwartheg yw'r anifeiliaid pori delfrydol, mae cyfyngiadau symud gwartheg llym yn Sir Benfro, ac yn aml iawn mae hynny'n golygu na ellir defnyddio gwartheg ar gyfer pori cadwraethol.

Mae pob perchennog tir sy'n ymuno â'r rhwydwaith yn cael 'pecyn pori' sy'n egluro pwy sy'n gyfrifol am y stoc a beth yw'r trefniadau ar gyfer sicrhau eu lles / cadw llygad arnynt.

Erbyn heddiw, Rhwydwaith Pori Sir Benfro yw'r cynllun pori lleol hynaf yng Nghymru ac mae'n dod dan ymbarél PONT (Pori, Natur a Threftadaeth).

A vibrant field of yellow buttercups in the foreground, with a white house and green hills in the background.

Astudiaethau Achos

Ysgol Hill, Rosebush

Yn 2007, roedd y perchnogion newydd yn awyddus i reoli eu tir ar gyfer bywyd gwyllt ond nid oeddent yn siŵr sut i wneud hynny; gweithredwyd system gweirglodd draddodiadol, yn cael ei chefnogi gan gytundeb rheoli a chymorth grant ar gyfer ffensio a chlwydi caeau. Darparwyd cymorth ymarferol am ddim â gwaith cleisio rhedyn o amgylch ochrau'r caeau hefyd. Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach roedd cyffro mawr pan ymddangosodd tegeirian llydanwyrdd hardd yn un o'r caeau.

Yn dilyn ymweliadau monitro darganfuwyd rhagor o fywyd gwyllt yma. Gwelwyd cytref o wyfynod adain ddu (un o ddwsin yn unig o gytrefi yn y sir) mewn cae yn cynnwys llawer o gnau'r ddaear, planhigyn y mae'r gwyfyn yn cael ei gysylltu ag ef. Mewn cae arall, canfuwyd math anarferol o ytbsys y coed.

Un o nodweddion diddorol y daliad hwn, a daliadau eraill tebyg iddo nad ydynt wedi gweld llawer o welliannau amaethyddol dros y blynyddoedd, yw bod pob cae'n wahanol. Maent yn amrywio cymaint o ran lliw a chyfansoddiad – yn yr haf, mae un yn wyn oherwydd cnau'r ddaear, ac un arall yn felyn o ganlyniad i'r gribell felen – sy'n adlewyrchu'n rhannol y ffaith nad yw amrywiaeth naturiol priddoedd wedi newid.

Credir bod o leiaf 98% o'r gweirgloddiau o'r fath wedi diflannu ers y 1930au yn y Deyrnas Unedig, felly mae'n hanfodol ein bod yn gwarchod y gweddill prin sydd ar ôl. Y gweirgloddiau hyn o bosibl yw'r cynefin mwyaf bregus yn y sir. Os nad yw'r cynefin yn cael ei amddiffyn gan ddynodiad (ac ychydig iawn ohonynt sy'n safleoedd dynodedig) gallwn eu colli bron dros nos o ganlyniad i newid mewn dulliau rheoli, er enghraifft aredig, ail-hadu neu chwistrellu.

Cymorth sydd ei angen

Cyngor	✓
Cytundeb rheoli	✓
Cymorth ymarferol	✓
Grant i ffensio	✓
Mynediad at arbenigwyr	✓
Gafael llaw	✓

Cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth

Dôl iseldir	✓
Tegeirian llydanwyrdd	✓



Tegeirian llydanwyrdd

Cnau'r ddaear mewn gweirglodd ym mis Mai




Gwyfyn adain ddu

Safleoedd ym Mynachlog-ddu a'r cyffiniau

Mae pentref Mynachlog-ddu mewn dyffryn llydan. Arwydd o fioamrywiaeth gyfoethog yr ardal yw'r ffaith fod tair Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) gerllaw. Mae gennym lond dwrn o safleoedd yma sy'n agos at yr ardaloedd hyn sydd o bwysigrwydd rhyngwladol ac sy'n eu clustogi.

Mae'n un o'r ardaloedd prin lle gwelir britheg y gors, un o'r glöynnod byw sy'n prinhau fwyaf yn Ewrop. Mae angen i'r glöynnod hyn gael nifer o safleoedd magu addas mewn ardal er mwyn cynnal poblogaeth iach. Mae nifer o'n safleoedd yn cyfrannu tuag oroesiad y rhywogaeth hon yma.



Fferm Llwyn Eithin, Mynachlog-ddu

Mae'r teulu Probert yn falch iawn o'r amrywiaeth o fywyd gwyllt sydd ar y fferm deuluol fechan lle maent yn magu gwartheg biff. Ymunodd y teulu â'r cynllun yn 2012, gan dderbyn cytundeb rheolaeth ar gyfer hanner eu tir, sy'n cynnwys rhai o'r gweirgloddiau harddaf yn yr ardal. Yn ôl Mr Probert, mae'r taliadau blynyddol wedi gwneud byd o wahaniaeth. Erbyn hyn mae'n gallu fforddio ffermio mewn ffordd sy'n iawn iddo ef ac yn iawn i fywyd gwyllt. Erbyn canol mis Gorffennaf mae'r caeau'n wledd i'r llygad ac yn llawn synau gwenyn a phryfed eraill – golygfeydd a synau sydd wedi mynd yn brin iawn yng nghefn gwlad Prydain. Mae staff Awdurdod y Parc hefyd wedi helpu'r teulu i ddarganfod rhagor o drysorau ar eu tir; mae britheg y gors wedi'i gweld yn magu ac yn bwydo ar eu caeau corsïog, a gwelwyd mantell Fair lefn yn tyfu ar lôn y fferm (dim ond mewn dau leoliad arall yn y sir y mae'r planhigyn hwn wedi'i weld).

Cymorth sydd ei angen

Cytundeb rheoli



Cyngor gan arbenigwyr planhigion a glöynnod byw



Cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth

Dôl iseldir




Glaswelltir corsïog



Britheg y gors



Britheg y gors



Martin Probert



Fferm Blaencleddau, Mynachlog-ddu

Ymunodd Mr a Mrs Kirby â'r cynllun yn 2014. Mae hanner eu fferm mewn SoDdGA ac yn derbyn cymorth gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r hanner arall yn rhan o gytundeb rheoli gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol, felly erbyn hyn mae'r fferm gyfan yn cael ei ffermio mewn ffordd sy'n gwella ei gwerth i fywyd gwyllt. Mae'r cytundeb yn canolbwyntio'n bennaf ar reoli ac adfer gweirgloddiau; mae rhai caeau a oedd yn arfer cael eu pori gan ddefaid drwy'r flwyddyn bellach yn cael eu pori yn yr hydref a'r gaeaf yn unig, ac yn cael eu gadael i dyfu gwair am weddill y flwyddyn. Mae'r newid hwn yn y dull o reoli wedi caniatáu i gasgliad hyfryd o blanhigion ymddangos, ac mae'r nifer a'r amrywiaeth yn cynyddu bob blwyddyn. Roedd y perchnogion yn falch iawn o weld llawer o degeirianau'n ymddangos, ynghyd â chlytiau helaeth o flodau carwy droellennog gwyn, planhigyn sydd wedi prnhau'n enbyd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig o ganlyniad i ddraenio tir.

Cymorth sydd ei angen

Cytundeb rheoli



Cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaet

Gweirglodd



Tylluan wen



Tegeirian brych y rhos



Bwrned pum smotyn

Fferm Allt y Gog, Mynachlog-ddu

Mae nifer y buchesi biff traddodiadol yn y sir, ac yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol, yn lleihau. Roedd yn braf gallu cefnogi'r fferm hon, a oedd yn cynnig cyfuniad da o laswelltir, glaswelltir sych a chlogfeini wedi'u gwasgaru drosto a chynefinoedd prysg, ynghyd ag afon yn rhedeg drwy'r cyfan.

Roedd y tir yn edrych fel tir a allai fod yn addas ar gyfer llawer o wahanol rywogaethau diddorol. Ar ôl llunio'r cytundeb rheoli a'i roi ar waith, datgelodd yr ymweliadau monitro bresenoldeb safle magu newydd pwysig i fritheg y gors. Gwelwyd brithegion perlog bach hefyd yn bwydo ar blanhigion y gwlyptir a gwiberod yn magu yn y llystyfiant hirach. Cofnodwyd cytref newydd o wyfynod adain ddu hefyd. Yn 2018, canfuwyd bod y safle'n un o ychydig iawn o safleoedd lle mae'r ffabys chwerw prin yn tyfu.

Cymorth sydd ei angen

Cytundeb rheoli



Cyngor gan arbenigwyr planhigion a glöynnod byw



Cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaet

Glaswelltir corsiog



Glaswelltir sych asidig iseldir



Ffacbysen chwerw



Britheg y gors



Gwiber



Dyfrgi



Yr arbenigwr glöynnod byw, Steve Coker, yn helpu i fapio gweoedd brithegion y gors yn yr hydref, sef yr arwydd gorau o iechyd y boblogaeth o löynnod byw. Tamaid y cythraul yw'r blodau porffor. Ar y blodau hyn y mae'r fritheg yn dodwy ei hwyau, a dyma lle mae'r gweoedd larfaol i'w gweld.



Y perchennog, Rosa Lye, yn helpu i chwilio am frithegion y gors ym mis Mehefin



Britheg berlog fach



Fferm Treathro, ger Pen-caer

Y lleoliad hwn ar yr arfordir ger Pen-caer yw'r unig lleoliad yn Sir Benfro lle mae'r rhwyddlwyn pigfain hardd i'w weld. Mae ar y planhigyn hwn angen lle agored i dyfu ac ymledu. Mae ailgyflwyno pori wedi annog y planhigyn arbennig hwn i ffynnu ac ehangu. Mae'r cynllun yn cyflenwi merlod ar yr adeg iawn o'r flwyddyn ac yn cefnogi hyn drwy wella ffensys a sicrhau bod rhywun ar gael i gadw llygad ar iechyd a lles y merlod. Mae'r safle'n rhan o SoDdGA.

Cymorth sydd ei angen

Cyrchu stoc



Cymorth ymarferol



Cyngor gan arbenigwyr planhigion



Cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaet

Rhostir arfordirol



Glaswelltir morol



Brân goesgoch



Clochdar y Cerrig



Rhwyddlwyn pigfain



Corfanhadlen flewog



Mae'r trefniadau rheoli hyn hefyd o fudd i rywogaethau nodedig eraill, fel y gorfanhadlen flewog sy'n tyfu'n isel a britohegion (gwyrdd a pherlog bach) y mae ar eu larfae angen fioledau sy'n tyfu yng nghysgod y rhedyn tenau.

Mae merlod yn pori'r clogwyni yn yr hydref ac yn helpu i gynnal glaswelltir a rhostir agored, mannau bwydo delfrydol i'r frân goesgoch sy'n nythu gerllaw



Mae'r cyfuniad o bori â merlod, cwningod a phriddoedd tenau wedi cyfrannu at lwyddiant y Rhwyddlwyn Pigfain.



Cofnodwr planhigion y sir, Stephen Evans, yn monitro planhigion prin



Fferm Tresinwen, ger Pen-caer

'Mae'r fioled welw *Viola lactea* yn cael ei hystyried yn rhywogaeth sydd mewn perygl yn Lloegr ac yn un sy'n agored i niwed yn y Deyrnas Unedig. Mae Sir Benfro'n un o gadarnleoedd pwysicaf y planhigyn yn y Deyrnas Unedig, ac mae pori a llosgi rhostiroedd wedi bod o gymorth mawr iddi oroesi. Mae arferion o'r fath yn lleihau ac mae llawer o rostiroedd wedi cael eu hadennill. Dyma'n rhannol pam y mae'r rhywogaeth mewn perygl erbyn hyn yn Lloegr. Pe bai rhostiroedd Sir Benfro, a rhostiroedd eraill yng Nghymru, yn cael eu gadael heb eu rheoli, buan iawn y byddai'r rhywogaeth mewn perygl yma hefyd.'

Stephen Evans, Cofnodwr Planhigion Sir Benfro, Cymdeithas Fotanegol Prydain ac Iwerddon (BSBI)

Rydym felly'n falch iawn o weld y fioled welw'n ymddangos ar rai o'r safleoedd arfordirol rydym yn eu rheoli, lle nad yw wedi cael ei chofnodi erioed o'r blaen. Mae fel pe bai'n ymddangos tua dwy flynedd ar ôl llosgi. Un o'r lleoliadau newydd ar gyfer y planhigyn anghyffredin hwn yw Fferm Tresinwen ger Pen-caer..

Cymorth sydd ei angen

Cymorth ymarferol



Cyrchu stoc



Cyngor gan arbenigwyr planhigion



Cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth

Godiroedd



Brân goesgoch



Gwiber



Fioled welw



Mae parcmyn a wardeniaid yn llosgi eithin trwchus dan reolaeth ar ran perchnogion tir yn y gaeaf, yn unol â'r Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt. Mae hyn yn cynnwys yr holl waith paratoi, megis torri brecioau rhag tân a chysylltu ag arbenigwyr lleol ar ymlusgiaid. Gwyddom fod safle lle mae gwiberod yn gaeafgyssgu ar y fferm hon, felly mae angen osgoi'r llecyn hwnnw wrth gyflawni gwaith rheoli. Rydym hefyd yn sicrhau mai darnau bach sy'n cael eu llosgi, er mwyn creu'r gymhareb briodol o orchudd prysg i laswelltir agored i alluogi gwiberod i fwydo/torheulo'n ddiogel. Er bod gwiberod yn cael eu hamddiffyn gan y gyfraith erbyn hyn, mae eu niferoedd yn gostwng ledled y Deyrnas Unedig, a does dim cofnod ohonynt yn barod mewn rhai siroedd yn Lloegr.

Mae llosgi llystyfiant yn arferiad traddodiadol. Mae'n ei gwneud hi'n haws i anifeiliaid sy'n pori fynd at llystyfiant mwy blasus. Mae hefyd yn sicrhau nad yw llystyfiant sy'n llosgi'n hawdd yn mynd yn rhy fawr, hynny yw, mae llosgi darnau bach dan reolaeth yn y gaeaf yn helpu i atal tanau mawr anodd eu rheoli yn yr haf. Mae llawer o fanteision i fywyd gwyllt hefyd gan fod llosgi'n creu llystyfiant sydd â strwythur amrywiol a rhywogaethau amrywiol.





Y fynwent yn y gwanwyn

Mynwent Stagbwll, Cheriton

Gall mynwentydd sy'n cael eu rheoli mewn ffordd sensitif gynnal llawer o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid. Mae glaswelltir toreithiog ei rywogaethau wedi diflannu o gefn gwlad Prydain i raddau helaeth felly gall mynwentydd fod yn lloches bwysig i'r cynefin hwn sy'n brin erbyn hyn.

Mae wardeniaid yr eglwys wedi ceisio gwneud y fynwent yn lle addas i fywyd gwyllt ac rydym yn falch o'u cefnogi. Mae'r glaswelltir yn cael ei dorri gan ein wardeniaid yn niwedd yr haf, yna'n cael ei gribinio gan wirfoddolwyr tua wythnos yn ddiweddarach, ar ôl i'r hadau gael cyfle i sychu a disgyn i'r ddaear.

Mae'r safle bach hwn yn cynnal dros 160 o rywogaethau o blanhigion. Mae'r rhain yn cynnwys arddangosfa wych o flodau cynnar y gwanwyn, fel briallu, eirysiau a llygad Ebrill. Ychydig yn ddiweddarach, mae clychau'r gog, gorthyfai a chnau'r ddaear yn ymddangos. Erbyn yr haf, mae'r fynwent yn lliwgar ac yn cynnwys y bengaled, blodyn neidr, suran a milddail. Mae'r holl rywogaethau hyn yn eu tro'n denu amrywiaeth o bryfetach, gan gynnwys glöynnod byw, cacwn a phryfed peillio pwysig eraill.

Cymorth sydd ei angen

Cymorth ymarferol



Mynediad i wirfoddolwyr



Cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth

Dôl iseldir



Y cribinio blynyddol ym mis Awst, gyda wardeniaid yr eglwys, staff y Parc a gwirfoddolwyr



Cardwenynen gyffredin

Castell y Garn, Trefdraeth

Cymorth sydd ei angen	
Cytundeb rheoli	✓
Cyrchu stoc	✓
Grant i ffensio	✓
Cymorth ymarferol	✓
Cyngor gan arbenigwyr planhigion	✓



Canrhi Trefdraeth



Cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth	
Godiroedd	✓
Brân goesgoch	✓
Canrhi Trefdraeth	✓

Mae gorllewin Cymru'n adnabyddus am ei gwartheg llaeth; mae'r hinsawdd fwyn a llaith yn ddelfrydol ar gyfer tyfu glaswellt. Mae Gerwyn a June Davies yn rhedeg fferm laeth lwyddiannus ger Trefdraeth, ac mae eu tir yn mynd i lawr at y môr. Mae'r caeau'n cael eu ffermio'n ddwys ond nid oedd y godiroedd wedi bod yn cael eu defnyddio ers degawdau, gan eu bod yn anaddas i'r bridiau modern o wartheg llaeth. Yn 2001, cysylltodd Awdurdod y Parc â Gerwyn a June Davies, ac yn dilyn hynny lluniwyd cytundeb i bori'r godiroedd â merlod, a rheoli rhywfaint ar y rhedyn. Mae wedi cymryd blynyddoedd, ond erbyn hyn mae cymhareb dda rhwng y glaswelltir agored a'r rhedyn, sy'n gynefin bwydo addas i'r frân goesgoch.

Mae'r tir yn cysylltu dau SoDdGA. Ar un o'r safleoedd hyn mae canrhi Trefdraeth/y ganrhi barhaol i'w gweld, rhywogaeth brin nad yw'n tyfu yn unman arall yn y Deyrnas Unedig. Ar ôl blynyddoedd o bori ar y pentir sy'n cynnal y boblogaeth fwyaf gogleddol o'r ganrhi, mae ei chynefin wedi'i wella'n sylweddol ac mae'r planhigyn bellach yn ffynnu yma.

Safleoedd y prosiect ym mhentref Brynberian a'r cyffiniau




Pen Parcau

Cytundeb rheoli
Adfer perthi
Ffensio
Gwneud llyn
Blwch tylluan wen



Y Bwythyn



Ffens drydan i bori â merlod
Blwch tylluan wen



Bancau

Cleisio rhedyn
Gwneud llyn







Blychau tylluanod gwyn

Mae'n debyg bod nifer y tylluanod gwyn wedi lleihau'n sylweddol yn ystod ail hanner y ganrif ddiwethaf, a thybir mai un o'r rhesymau am hyn yw prinder safleoedd nythu addas. O ganlyniad, penderfynasom gynnig blychau nythu i ddaliadau a oedd â chynffwrdd bwydo addas gerllaw, yn enwedig os oeddem yn gwybod bod tylluanod gwyn yn yr ardal neu os oeddent wedi cael eu gweld yno yn ystod y blynnyddoedd diwethaf.

Mae tua 50 o flychau wedi cael eu gosod dros y blynnyddoedd, dan do (mewn ysguboriau a siediau) ac allan yn yr awyr agored (ar goed). Gan fod angen trwydded i archwilio blychau yn ystod y cyfnod magu, rydym yn gweithio gydag adaregydd lleol bob mis Mehefin i fonitro sut maent yn dod yn eu blaenau.

Nid yw'r blychau yn yr awyr agored wedi bod yn llwyddiannus iawn, er eu bod wedi bod yn fwy poblogaidd ymhlith tylluanod brych a hyd yn oed golomennod gwyllt. Mae'n well gan dylluanod gwyn y blychau dan do. Yn y manau hynny lle mae tylluanod gwyn wedi bod yn eu defnyddio penderfynasom eu gosod mewn parau i wneud yr amgylchiadau hyd yn oed yn fwy ffafriol.

Mae'n ymddangos bod tylluanod gwyn yn cael blynnyddoedd da a blynnyddoedd gwael, gan ddibynnu ar y tywydd i raddau helaeth. Mae'n anodd hela mewn tywydd oer a gwlyb ac mewn eira ac mae hyn yn effeithio ar gyfraddau goroesi a magu.



Paddy Jenks, yr adaregydd lleol



Gosod blwch tylluanod

Problemau a wynebwyd

Torri gwair

Nid yw'n hawdd cael gafael ar rywun i dorri gweirglodd fechan yn yr haf. Yn aml iawn pan fydd cyfnod addas o dywydd braf yn cyrraedd, bydd contractwyr yn brysur ar safleoedd mawr, mwy cynhyrchiol. Yn aml iawn hefyd mae'r peiriannau modern yn rhy fawr i fynd i mewn i'r caeau bach. Mae prinder pobl â chyfarpar bach traddodiadol sy'n gallu gwneud y gwaith hwn; mae bwlch pendant yma y mae angen ei lenwi.

Efallai na fydd y deunydd sy'n cael ei dorri yn ddigon da i wneud gwair, a'r broblem wedyn yw sut mae cael gwared arno. Efallai y bydd yn rhaid ei adael ar y safle, sydd ddim yn ddelfrydol o bell ffordd.

Pan nad yw'n bosibl torri'r gwair, efallai y bydd angen troi anifeiliaid i'r safle i'w bori. Gall hyn arwain at fân newidiadau i'r fflora, ond mae'n cael ei ystyried yn dderbyniol fel mesur tymor byr ac mae'n sicr o fudd sylweddol i infertebratau.

Cyfarpar traddodiadol i wneud gwair ar raddfa fach, golygfa anghyffredin y dyddiau hyn



Newid ym mhatrymau'r tywydd

Ers i'r cynllun ddechrau, rydym wedi sylwi ar newidiadau ym mhatrymau'r tywydd sy'n golygu ei bod yn anos rheoli gweirgloddiau. Yn ystod y blynyddoedd hyd at 2018, nid oeddem mwyach fel pe baem yn cael cyfnodau sych a oedd yn ddigon hir i gwblhau'r gwaith. Mae hafau gwlyb yn golygu ei bod yn aml yn amhosibl torri gwair nes ei bod yn weddol hwyr yn y flwyddyn. Weithiau nid yw'r byrnau wedi sychu'n iawn ac mae'n amhosibl eu defnyddio neu does dim gwerth iddynt, ac mae'n rhaid cael gwared arnynt, sydd hefyd yn broblem. Fel arfer maent yn cael eu gadael ar gyrion y safle i bydru, sy'n gallu arwain at orfaethu lleol.

Gwelsom hefyd fod llosgi dan reolaeth yn y gaeaf yn mynd yn anos gan nad yw mor hawdd cael tywydd addas ar gyfer y gwaith y dyddiau hyn. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw'r tywydd delfrydol wedi cyrraedd tan ganol neu ddiwedd mis Mawrth, sy'n rhy hwyr oherwydd bod yr adar yn dechrau nythu, ac mae'r tymor nythu hefyd fel pe bai'n cychwyn yn gynharach nag o'r blaen.

Llysiau'r gingroen

Gall creu glaswelltir byr drwy bori weithiau annog cynnydd mewn llysiau'r gingroen.

Mae llysiau'r gingroen yn rhywogaeth bwysig i fywyd gwyllt ac mae dros 30 o infertebratau'n defnyddio llysiau'r gingroen fel planhigyn bwyd. Un o'r rhai amlycaf yw teigr y benfelen, math o wyfyn y gwelir llawer ohonynt gyda'i gilydd yn aml. Mae llysiau'r gingroen yn elfen naturiol o fflora'r glaswelltir.

Ond mae llysiau'r gingroen hefyd yn wenwyn i dda byw, pan mae anifeiliaid yn pori yn y cae a hefyd ar ôl iddo gael ei sychu mewn gwair. Os credir bod gormod o llysiau'r gingroen ar safle, ein strategaeth bresennol yw ei drin â chemegion yn y gwanwyn. Mae hynny'n rhoi cyfle i ni gynllunio ar gyfer y dyfodol ac atal y broblem cyn iddi godi, yn hytrach na gorfod datrys y broblem ar y funud olaf, fel arfer drwy dynnu'r planhigyn o'r ddaear â llaw, sy'n dasg lafurus a digalon i staff a gwirfoddolwyr.



Tir yn newid dwylo

Rydym wedi colli ambell safle yn ystod oes y cynllun, er enghraifft o ganlyniad i ddatblygu a gwella ffyrdd. Hefyd, pan mae tir yn newid dwylo, os nad yw wedi'i ddynodi, nid oes sicrwydd y bydd yn dal i gael ei reoli mewn ffordd sy'n ystyriol o'r amgylchedd. Er hyn, rydym hefyd wedi gweld rhai perchnogion yn dewis yn fwriadol i bwy y maent am werthu, er mwyn sicrhau bod eu gwaith da'n parhau.

Manteision ehangach y cynllun

Yn ogystal â manteision i fywyd gwyllt, gall cyflwyno dulliau traddodiadol o reoli tir sicrhau'r manteision a ganlyn:

Sicrhau bod tir a oedd wedi cael ei esgeuluso neu ei adael cyn hyn yn rhan o'r fferm weithredol unwaith eto

Gall y tir ddod â manteision ariannol hefyd drwy grantiau rheoli, neu gall fod yn atyniad ychwanegol y gall ffermydd sydd â busnes gwyliau (gwely a brecwast, bythynnod gwyliau) ei gynnig i westeion. Er enghraifft, mae rhai ffermydd sy'n cynnig llety gwyliau yn dweud bod y rhestr o blanhigion ac anifeiliaid a roddwyd iddynt yn aml o ddiddordeb i ymwelwyr.

Gwella cyfleoedd ar gyfer mynediad a hamdden

Er enghraifft, mae rheoli clogwyni arfordirol a godiroedd yn helpu i gynhyrchu'r olygfa ysblennydd o flodau gwyllt y mae cynifer o bobl leol ac ymwelwyr yn dod i'w mwynhau yn y gwanwyn a'r haf. Yn lle cerdded drwy fôr undonog o redyn a mieri, mae'r profiad o gerdded yn cael ei gyfoethogi gan glytwaith o gynefinoedd ac amrywiaeth o fywyd gwyllt i'w gwyllo. Mae rhai rhywogaethau eiconig fel y frân goesgoch yn denu ymwelwyr yn eu rhinwedd eu hunain. Ar dir uwchben Harbwr Wdigi, er enghraifft, gall cerddwyr yn awr gerdded ar draws y godiroedd atyniadol yn lle cael eu cyfyngu i Lwybr yr Arfordir gan isdyfiant trwchus.

Archaeoleg Yn aml iawn gall pori gofalus a rheoli llystyfiant ddatgelu nodweddion o ddiddordeb archaeolegol sy'n anodd eu canfod/gweld oherwydd gordyfiant.

Iechyd a lles Gwyddom fod harddwch, heddwch a bywyd gwyllt tirweddau traddodiadol o gymorth mawr er mwyn lleihau straen a hybu ymdeimlad o lesiant. Yn wir, mae un perchennog tir wedi dweud bod creu ei weirgloddiau, a'u mwynhau wedyn, wedi helpu i leihau ei feddyginiaeth ar gyfer pwysedd gwaed uchel a diabetes yn sylweddol.

Rheoli hawliau tramwy Gall safleoedd sy'n cynnwys hawliau tramwy elwa o bori ysgafn drwy leihau'r angen i ddefnyddio peiriannau i dorri llystyfiant. Mae hyn hefyd yn lleihau ein costau a'n hól troed carbon.

Y dyfodol

O'n profiad ni, mae'n amlwg bod angen cynllun ar gyfer rhan o fferm, wedi'i deilwra'n lleol, er mwyn cefnogi dulliau traddodiadol o reoli tir yn Sir Benfro. Heb gynllun o'r fath, byddai'n anodd iawn i lawer o berchnogion tir gael y cyngor a'r cymorth y mae arnynt ei angen i wneud y gorau o'r bywyd gwyllt sydd ganddynt ar eu tir. Ag agwedd hyblyg, gefnogol a chadarnhaol, nid oes prinder perchnogion tir sy'n dymuno cael y math hwn o gymorth. Â'r adnoddau iawn, bydd y cynllun yn gallu tyfu mwy fyth a dod yn ffordd bwysig o warchod natur yn Sir Benfro. Gobeithio hefyd ein bod wedi datblygu model a fydd yn ddefnyddiol mewn rhannau eraill o Gymru a'r Deyrnas Unedig.



Dyfyniadau gan bartneriaid a rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun

"Rydym wedi bod yn cymryd rhan yn y cynllun rheoli ers blynyddoedd erbyn hyn. Rydym yn torri ein caeau gwair ym mis Gorffennaf, a thros y blynyddoedd maent wedi dechrau cynhyrchu amrywiaeth cynyddol o flodau gwyllt. Mae ein gwlyptir yn cael ei bori yn yr haf gan ferlod, ac mae bioamrywiaeth da ar y tir ac yn y pyllau bas newydd. Rydym hefyd wedi elwa o adfer ychydig o berthi. Mae wedi bod yn llwyddiant mawr i ni, ac ar ben hynny mae gennym ddau flwch tylluanod – un yn yr ysgubor ac un mewn coeden fawr – sydd â thenantiaid bywiog."

Pat Caplan, Brynberian

"Roedd arna i eisiau cyngor ynglŷn ag adfer perthi, gwella bioamrywiaeth a chael mwy o adar a blodau gwyllt. Mae staff y Parc Cenedlaethol wedi bod fel gwyddoniadur cyfeillgar ac maent wrth law bob amser pan mae arna i angen cyngor. Mae Awdurdod y Parc wedi bod yn adnodd cyfeillgar yn y cefndir – byth yn ymwithiol – ond bob amser yn barod i ddod draw a rhoi cyngor. Gyda'n gilydd rydyn ni wedi adfer perthi, plannu coed a blodau gwyllt a gwyllo byd natur yn dychwelyd. Mae rhai o'r arbenigwyr gorau yn Sir Benfro, mewn llawer o wahanol feysydd, yn gweithio i'r Parc – fy nghyngor i fyddai i chi fanteisio ar eu caredigrwydd".

J Owen, Cas-fuwch

"Mae'n ymddangos bod ymdrech Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i gynnal system reoli hirdymor o bori, torri a llosgi ambell ddarn yn talu ar ei chanfed. Mae amrywiaeth cynyddol o gynefinoedd sy'n addas ar gyfer rhywogaethau arbennig ac mae'r cynefinoedd mewn cyflwr da. Mae amrywiaeth da o blanhigion blodeuol ar y safleoedd ac mae rhai ardaloedd yn nodedig iawn oherwydd y clychau'r gog a'r tegeirianau. Erbyn hyn mae rhai safleoedd arfordirol yn cynnwys ardaloedd helaeth o gynefinoedd bwydo addas iawn i'r frân goesgoch. Mae planhigion prin yn ehangu mewn lleoedd lle roeddent ar fin diflannu ychydig flynyddoedd yn ôl. Byddai'n braf gweld y trefniadau rheoli hyn yn ymledu ymhellach ar draws y Parc Cenedlaethol i ardaloedd eraill lle mae pori hirdymor yn ymarferol."

Jon Hudson, Cyfoeth Naturiol Cymru

"Gair byr i ddweud cymaint rydym yn gwerthfawrogi'r holl waith rydych wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf. Yn y gorffennol roedd y rhan fwyaf o'r ardal i'r dwyrain o'r llyn a'r cae cyfagos yn llawn mieri a drain duon, ond mae'r planhigion a'r blodau sydd i'w gweld yno heddiw yn wledd i'r llygad drwy'r flwyddyn. Mae bioamrywiaeth y safle wedi gwella cymaint ac mae'n debyg na fyddem wedi gallu ei reoli heb eich gwybodaeth a'ch cymorth gwerthfawr chi. Mae llawer o bobl sy'n ymddiddori mewn natur wedi aros yn Rosemoor ac maent yn cytuno. Maent yn cyfeirio'n aml at y planhigion, yr ystlumod, yr adar, yr infertebratau, y gwyfynod a'r glöynnod byw y maent wedi eu gweld, ac yn rhoi rhestrau ohonynt i ni'n rheolaidd. Maent yn gweld y safle fel hafan i fywyd gwyllt ac mae'n hollol wahanol i'r ardaloedd adeiledig lle mae llawer ohonynt yn byw. Dyw'r pethau hyn ddim yn cael eu dweud yn ddigon aml, ond heddiw fe wnaethon ni feddwl: mae'n hen bryd i ni ddweud diolch!"

John Meulendijk a Jacqui Janssen, Gwarchodfa Natur Rosemoor, Castell Gwalchmai

"Pan fo ymwelwyr sy'n dod i Sir Benfro'n gofyn am gyngor gen i ynglŷn â ble i fynd er mwyn gweld glöynnod byw, byddaf bob amser yn dechrau drwy ddweud wrthynt am gerdded ar hyd yr arfordir. Rwy'n berffaith sicr fod yr amrywiaeth o löynnod byw sydd i'w gweld ar arfordir Sir Benfro, yn enwedig y niferoedd, i'w briodoli i raddau helaeth i waith y Parc Cenedlaethol, y dulliau rheoli sy'n hybu cadwraeth, a'r gwaith sy'n cael ei oruchwyllo gan staff y Parc. Un diwrnod gwelais 76 o frithegion gwyrdd wrth gerdded 4 milltir ar yr arfordir ger Pen-caer!"

David Redhead, Cofnodwr Glöynnod Byw ar gyfer Sir Benfro

"Heb os nac oni bai, byddai rhai o'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig mewn cyflwr anffafriol oni bai am Gynllun Gwarchod y Parc. Mae cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cytundebau rheoli wedi gweld llawer o doriadau, ac nid yw'r gallu gennym i helpu â threfniadau ymarferol fel cyrchu, symud a chadw golwg ar dda byw, a helpu â gwaith ffensio anodd ar yr arfordir."

Mary Chadwick, Cyfoeth Naturiol Cymru

"Roeddwn i mor falch o glywed am gynllun pori'r Parc Cenedlaethol. Mae fy nghaeau wedi cael eu hesgeuluso ers cymaint o amser, ond mewn llai na blwyddyn mae eu bioamrywiaeth wedi dechrau cynyddu o ganlyniad i bori â Merlod Mynydd Cymreig, sydd hefyd yn werth eu gweld."

Cynthia Boissevain, Llandudoch

"Ers tua degawd, mae'r Parc Cenedlaethol wedi helpu Stena Line Ports Ltd i reoli ein tir arfordirol uwchben y porthladd yn Abergwaun. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys pori â merlod, rheoli rhedyn, ffensio, torri brecioau rhag tân a chael gwared ar rododendron – sydd i gyd wedi agor y safle i fywyd gwyllt a cherddwyr. Mae hefyd wedi lleihau llwyth tanwydd y tir ac atal y tanau mawr yr arferid eu cael yn yr haf yn y gorffennol. Rydym yn ddiolchgar i'r tîm am eu holl gymorth."

Carl Milne, Rheolwr Gwasanaethau'r Porthladd

"Dros y 3 blynedd diwethaf rydym wedi gwyllo'n tir yn blodeuo oherwydd yr help rydym wedi'i gael gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roeddem yn gwybod bod gennym rywbeth arbennig yma a ddylai gael ei warchod, a hynny i bobl eraill ar wahân i ni. Doedd neb yn cofio pryd oedd y tro diwethaf i'r tir gael ei drin, ond allen ni ddim fforddio gwneud y gwaith. Bûm yn ymchwilio ac yn ysgrifennu llythyrau at bob math o bobl yn gofyn am help/cyngor. Erbyn hyn roedd y llystyfiant ar y tir wedi mynd yn wyllt. Yna daeth y Parc Cenedlaethol i'r adwy. Hwre! Rydw i wedi cadw cofnod ffotograffig bob mis i ddangos sut mae'r tir wedi newid er 2015. Mae'r gymdeithas gadwraeth leol wedi bod yma'n cofnodi planhigion a phryfetach ... yn wir, mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb mewn bywyd gwyllt ddod draw. Rydyn ni'n ddiolchgar i'r Parc Cenedlaethol am y cymorth a'r cyngor parhaus i'n cadw ar y llwybr cywir."

Jean Thomas, Llan-lwy

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Swyddog Cadwraeth
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
ebost: pcnp@pembrokeshirecoast.org.uk

Diolch

Hoffem ddiolch i holl bartneriaid y cynllun, ac i bawb sydd wedi bod yn cymryd rhan ynddo dros y blyneddau, yn enwedig perchnogion y tir. Ni fyddai llawer o'r safleoedd bywyd gwyllt hyn yn bodoli oni bai amdany'n nhw. Yr unig reswm pam y mae rhai o'r lleoedd llawn bywyd gwyllt hyn yn dal yma yw oherwydd bod ganddynt berchnogion sy'n rhoi sylw i fywyd gwyllt, felly rhaid eu gwerthfawrogi a rhoi cymaint ag sy'n bosibl o gefnogaeth iddynt.

